# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN UWCH**
**3010NA0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN UWCH**

**HAF 2022 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Gweld y Gorwel** gan Aneirin Karadog

**Ystafell Fewnol** gan Aled Lewis Evans

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r ddwy gerdd yn cyfeirio at rywbeth sy'n cael ei guddio rhag y byd. Mae AK yn *rehab*, i ffwrdd o'r byd, ac ALE yn cyfeirio at 'ryw ddistawrwydd y tu hwnt i'r miri.'

- Mae ALE yn awgymu ei fod yn hoffi bod yn yr 'ystafell o ryfeddodau' ond nod AK yw dianc oddi wrth y caethiwed.

- Mae'r ddau fardd yn dioddef yn y cerddi. Mae ALE yn dweud ei bod yn 'brifo gadael pobl i mewn i fanno', ac mae AK yn dioddef 'yn nheilchion ergydion'.

- Mae'r ddwy gerdd yn gorffen gydag awgrym o gariad. Mae ALE yn cyfeirio at 'y fi rwyt ti (efallai) yn gallu'i weld.' Mae AK hefyd yn cyfeirio at berson, ond mae AK yn defnyddio'r trydydd person 'hi' yn hytrach na'r ail berson 'ti'. Mae hyn yn awgrymu ychydig mwy o bellter.

**Gweld y Gorwel**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor yn negyddol iawn gyda'r ferf 'colli'. Mae'r ffaith bod y gerdd yn cael ei lleoli mewn *rehab* yn arwydd bod y bardd mewn lle tywyll iawn. Ac eto gellir dweud bod yna elfen o obaith o'r cychwyn gan ei fod wedi cyfaddef ei broblem wrth fynd yno.

- Mae synnwyr clywed yn bwysig iddo wrth iddo glywed yr holl ddiflastod yma o'i amgylch.

- Mae'n teimlo bod bywyd yn undonog iddo a'i fod yn cael ei reoli.

- Pan mae pethau ar eu gwaethaf, a'i fod yn teimlo'i fod yn cael ei reoli'n llwyr 'o dan label', a phan mae'r ergydion yn dod ato, dyma pryd mae gobaith yn dod ar ffurf ei gariad.

- Mae 'sŵn y byw diflasa'n bod' wedi gwneud lle i sŵn ei gariad.

- Mae'r 'nosau' yn cynrychioli tywyllwch ac anobaith iddo, ac felly mae'n arwyddocaol mai ei gariad yw sŵn y dydd.

- Gorffen yn obeithiol a wna'r gerdd gan wrth-ddweud y teimlad yn yr englyn cyntaf.

© WJEC CBAC Cyf.

**Ystafell Fewnol**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor gyda'r bardd yn cyfaddef nad yw pobl yn ei adnabod yn iawn.
- Mae'n rhoi'r argraff bod yna ddau berson gwahanol o fewn un corff, sef person distaw a pherson sy'n llawn hwyl.
- Mae'n gweld bod yna stafell fewnol ynddo ef ei hun, un nad yw'n hoffi i bobl ddod i mewn iddi 'rhag ofn iddyn nhw adael y stafell mewn chwip o dymer'.
- Mae'n cymharu'r ystafell â'r tu allan, gan ddweud ei bod hi'n lle braf.
- Y tu allan mae'n rhaid iddo esgus bod yn rhywun arall 'lle mae'n rhaid bodloni bod yn galed'.
- Mae'n mwynhau mynd yn ôl i'w ystafell ei hun ar ddiwedd y dydd.
- Mae'n sôn am berson, sef 'ti', ond nid ydyn ni'n gwybod pwy ydyw.

**Neges**

Yn y ddwy gerdd, cawn ddarlun o fod ar wahân. Mae un yn gorfod bod ar wahân ond mae'r llall yn dymuno bod ar wahân.

Mae ALE yn cael cysur o fod ar ei ben ei hun, ond mae AK yn cael cysur o weld ei gariad ar ôl bod ar ei ben ei hun.

© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Gweld y Gorwel**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| *rehab* | ailadrodd |
| sŵn | ailadrodd |
| daith hunanol | trosiad/ansoddair |
| gwrid ei gariad yw gorwel | trosiad |
| dydd...nosau | cyferbyniad |
| diflasa'n bod...melysa'n bod | cyferbyniad |

**Arddull Ystafell Fewnol**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| dyfnach | ansoddair |
| ystafell o ryfeddodau | trosiad |
| fel hen slipars | cyffelybiaeth |
| gadael | ailadrodd |
| lle braf, nid fel y tu allan | cyferbyniad |
| y fi | ailadrodd |

**Mesur**

**Gweld y Gorwel: Englyn Penfyr**

Mae'r englyn penfyr yn fesur caeth sydd yn adlewyrchu caethiwed y bardd i gyffuriau. Gellid dweud bod ailadrodd yr 's' yn y llinell gyntaf yn adlewyrchu sŵn cras ei sefyllfa bresennol. Mae'r ffaith ei fod yn benfyr yn awgrymu nad yw bywyd y bardd fel y dylai fod. Mae sŵn hyfryd y gynghanedd yn cael ei adlewyrchu yn y neges yn y llinell olaf.

**Ystafell Fewnol: Vers Libre/Y Wers Rydd**

Mae'r wers rhydd yn adlewyrchu rhyddid y bardd i benderfynu cuddio'i hun rhag cymdeithas. Gall y wers rydd adlewyrchu'r diffyg rhythm y mae'r bardd yn ei weld mewn bywyd.

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **21-30** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-10** | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.